

# SIARTER Y MYFYRWYR STUDENT CHARTER



Undeb Myfyrwyr  
Prifysgol De Cymru  
University of South Wales  
Students' Union

## Croeso i Brifysgol De Cymru

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol De Cymru, dylai for gennych ddisgwyliadau uchel ar gyfer eich amser yn astudio gyda ni. Mae ein Siarter yn esbonio ymrwymiad y Brifysgol i wiethio mewn partneriaeth a chi i ddarparu profiad myfyrywyr o safon uchel sy'n eich helpu i gyflawn llwyddiant personal ac academaidd.

Mae gan Brifysgol De Cymru enw da am addysgu o ansawdd uchel, am gymorth rhagorol i fyfyrwyr ac am baratol ein myfyrywyr ar gyfer cyflogaeth. Rydym yn uchelgeisiol o ran eich paratoi ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol drwy ddatblygiad academaidd a phersonol, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn amgylchedd dysgu sy'n eich helpu i astudio a datblygu mewn ffyrdd sy'n addas i'ch anghenion.

Credwn mai'r ffordd orau o sicrhau llwyddiant o'r fath yw drwy weithio gyda'n gilydd fel partneriaid mewn ysbryd o barch ac ymddiriedaeth, gan gynnal gwerthoedd y Brifysgol bob amser. Dyma sail ein Siarter Myfyrywyr ac mae'n deillio o'r berthynas waith gref sy'n bodoli rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrywyr.


Mae'r Siarter yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir ohonoch chi fel myfyriwr ac o'r Brifysgol. Caiff y Siarter ei hadolygu'n flynyddol gan roi ystyriaeth i adborth gan fyfyrwyr a staff. Mae'r Siarter hefyd yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir ohonoch chi fel myfyriwr yn ystod eich amser yn y Brifysgol er mwyn i chi berfformio hyd eithat eich gallu.

Yn y Siarter, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd diogel a chynhwysol fel elfen hanfodol o'n darpariaeth, ac mae gennym brosesau mewn lle i ddangos hwn, yn ogystal a Polisi Diogeli. Rydym yn ymroddedig i gefnogi eich iechyd lles sy'n eu atgyfnerthu trwy cydnabod y rolau mae'r Prifysgol, yr Undeb Myfyrywyr a chi, ein myfyriwr, yn gael yn hyn.

Rydym yn gobeithio bod y Siarter hon yn eich helpu i ddeall yr egwyddorion sy'n ffurfio sail i'n cymuned ddysgu llwyddianus, gan adlewyrchu nodau dyfodol o'r Weithred Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, ac sy'n galluogi chi i gael y profiad gorau posib yn ystod eich amser fel myfyriwr ym Mhrifysgol De Cymru.

Dr. Ben Calvert  
Is-Ganghellor, PDC.

David Pye  
Llywydd UMPDC





## Rhagarweiniad

Mae Siarter y Myfyrwyr yn set o egwyddorion cyffredin, sy'n esbonio'r hyn y gallwch chi ei ddisgwyl gan eich Prifysgol a'r hyn y gall y Brifysgol, yn ei thro, ei ddisgwyl gan ein myfyrwyr. Mae'r Siarter Myfyrwyr yn ofynnol o holl Brifysgolion Prydeinig, ac wedi cael eu creu yn gysur gyda staff a myfyrwyr Prifysgol. Mae'n amlinellu'n eglur y rolau a chyfrifoldebau sydd gan bawb sy'n cyfranogi yn eich profiad yn y Brifysgol, gan sicrhau ein bod ni i gyd yn chwarae ein rhan mewn datblygu cymuned myfyrwyr ar-lein ac ar gampws fywiog a chyffrous.

Rydym yn dechrau o safbwynt y gwerthoedd a rannwn, sy'n darparu cyd-destun ar gyfer sut y byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd. we will work together.

### Gyda'n gilydd, byddwn yn:

#### Proffesiynol

- Gyfrifol am gyflawni ein hamcanion personol a rhai'r tîm
- Gweithredu'n ddidwyll i sicrhau y gall pobl ymddiried ynom a dibynnu arnom
- Cymryd cyfrifoldeb yn unigol ac ar y cyd am gyfrannu at ein hamcanion strategol
- Parchu a gosod gwerthu ar bob unigolyn am eu cyfraniad at ein Prifysgol

#### Creadigol

- Meithrin chwilyfrydedd ac arloesedd fel y gall syniadau ffynnu
- Croesawu syniadau newydd
- Gwneud ymdrech i gydweithredu yn hytrach na chystadlu ag eraill yn ein Prifysgol
- Cymryd ambell risg a herio dulliau cyfredol o weithio a dysgu er mwyn creu effaith gadarnhaol.

#### Ysbrydoledig

- Bod yn angerddol ynglŷn â dathlu llwyddiant

- Bod yn deinamig, cyffrous ac ysgogol
- Creu cyfleoedd sy'n ehangu ein gorwelion
- Trawsnewid bywydau

#### Ymatebol

- Bod yn hyblyg ac ystwyth, gan groesawu newid
- Byddwch yn hawdd mynd atynt, gan geisio adborth er mwyn datblygu'n barhaus
- Herio rhwystrau ac ymddygiad ataliol
- Nodi a chyfathrebu arferion a syniadau da

#### Cydweithredol

- Cydweithio'n weithredol ar draws ein Prifysgol ac yn allanol er budd pawb
- Bod yn gynhwysol, gwerthfawrogi a pharchu pob unigolyn am ei gyfraniad
- Nodi a chyfleu arfer a syniadau gorau

# Eich Astudiaethau

## Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Prifysgol:

- Rhaglen sefydlu effeithiol a llawn, fel eich bod yn deall yr hyn sydd angen i chi ei wneud i fod yn llwyddiannus yn eich astudiaethau, a'ch bod yn dod i adnabod eich cyd-fyfyrwyr a'r staff
- Llawlyfr cwrs sy'n cynnwys gwybodaeth a manylion o'ch dysgu ac amserlen ar gyfer eich asesiadau
- Adborth eglur ac adeiladol ar eich gwaith ar ôl iddo gael ei asesu, o fewn ugain diwrnod gwaith
- Addysgu o safon uchel yn seiliedig ar arfer perthnasol a chyfredol.
- Mynediad i'r adnoddau rydych chi eu hangen i gwblhau eich astudiaethau, gan gynnwys Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol, cyfarpar arbenigol, a chymorth 1-i-1 gan eich hyfforddwr academaidd personol
- Cwricwlwm heriol a bywiogus wedi'i addysgu gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda, yn gyfoes o ran eu gwybodaeth ac sy'n meddu ar arbenigedd mewn dysgu ac addysgu
- Ymgynghori â chi parthed unrhyw newidiadau sylweddol y eich cwricwlwm
- Y dewis o gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, beth bynnag fo iaith yr addysgu
- Y cyfle i astudio rhywfaint o'ch cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd sgiliau astudio a chymorth ar gyfer datblygiad myfyrwyr hefyd ar gael yn ddwyieithog
- Cadw at gyfrifoldebau'r Brifysgol o dan y Ddeddf Gymraeg, ac i gadw at Safonau'r Gymraeg
- Gwybodaeth ar-lein glir a chynhwysfawr ar gost astudio
- Cydymffurfio â'i ymrwymadau o dan gyfraith defnyddwyr fel yr amlinellwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Gweithio i amddiffyn eich buddiannau wrth ymateb i amgylchiadau fel newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae cwrs yn cael ei gyflwyno neu gau cwrs
- Gweithdrefnau i ymateb i'r amgylchiadau uchod i leihau'r effaith bosibl arnoch chi a'ch cyd-fyfyrwyr, gan gydnabod eich cefndiroedd a'ch anghenion amrywiol
- Eich cefnogi chi trwy fonitro'ch dysgu ar-lein ac ar y campws yn rheolaidd

## Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Undeb Myfyrwyr:

- Y ddarpariaeth o gynllun effeithiol ar gyfer cynrychiolaeth academaidd drwy'r systemau
- Cynrychiolaeth ar y lefel uchaf o strwythurau llywodraethiant y Brifysgol drwy eich Swyddogion Myfyrwyr, sy'n helpu i sicrhau ansawdd a safonau academaidd rhagorol
- Cydnabyddiaeth o ragoriaeth mewn dysgu ac addysgu drwy Wobrau Dewis y Myfyrwyr, ar sail eich enwebiadau a rhannu arferion gorau'r gwasanaethau academaidd a chymorth
- Gweithio i amddiffyn eich buddiannau wrth ymateb i amgylchiadau fel newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae cwrs yn cael ei gyflwyno neu cwrs yn cau

## Rydym yn disgwyl y canlynol gennych chi:

Chyfranogiad llawn mewn gweithgareddau sefydlu

Ymgysylltu'n llawn yn eich astudiaethau ar-lein ac ar gampws

Mynychu a gymryd rhan weithredol mewn pob darlith, cyfarfod a weithgaredd arall wedi'u amserleni sy'n perthnasol i'ch cwrs, gan gynnwys y rhai a gynnigir o bell.

Ymddygiad parchus yn eich astudiaethau, ar-lein ac yn y dosbarth

Arsylwi a chynnal unrhyw ofynion cyfrinachedd dysgu ar-lein

Bod yn agored ac yn onest ynghylch gofynion cymorth technegol

Cadw at yr holl ofynion iechyd a diogelwch.

Gwneud defnydd priodol o'ch UniLearn (e.e Blackboard, Panopto, Turnitin)

Ymgysylltiad llawn â phob aseiniad, a'u cyflwyno ar amser.

Darllen ac adlewyrchu ar eich adborth, gan ei ddefnyddio i gynllunio eich dysgu  
Ymgysylltiad â'ch hyfforddwr academaidd personol drwy fynychu cyfarfodydd ac adlewyrchu ar eich cynnydd

Cyfrannu at Gynulliad y Cynrychiolwyr Cwrs a chyfarfodydd Grŵp Cydlynu Cyrsiau Myfyrwyr a Staff, os ydych chi'n Gynrychiolydd Cwrs neu'n Gynrychiolydd Llais y Dysgwr etholedig

Ymddwyn yn gyfrifiol yn eich astudiaethau ac yn eich defnydd o adnoddau, gan gynnwys bod yn ystyrlon o anghenion pobl eraill ac o ofynion iechyd a diogelwch.

Cydymffurfio â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol parthed eich astudiaethau academaidd, gan gynnwys gweithdrefnau sy'n ymwneud â chofrestru prydlon ar gyfer cyrsiau a modiwlau, cyflwyno gwaith academaidd a gonestrwydd academaidd

Talu pob ffioedd yn brydlon

Ymateb i gyfathrebiadau Prifysgol yn brydlon.

VOTE!



# Eich Llais

## Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Prifysgol:

- Mynediad i gyfleoedd anffurfiol a ffurfiol ar gyfer ein darparu ni ag adborth am eich cwrs (e.e. system werthuso cyrsiau a modiwlau) a gwasanaethau cymorth gan gynnwys y siapio o ddarpariaethau i gefnogi eich iechyd a lles
- Adborth o'ch cwrs ar unrhyw weithredu priodol a wnaed mewn ymateb i'ch barn
- Cynrychiolydd cwrs a chynrychiolydd llais y dysgwr etholedig ar gyfer cyfathrebu eich barn

## Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Undeb Myfyrwyr:

- Cynrychiolaeth drwy eich Swyddogion Llawn-amser ar lefel uchaf strwythurau llywodraethiant y Brifysgol
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn cynrychioli eich cyd fyfyrwyr drwy gyfranogiad yng Nghyngor y Myfyrwyr, Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr, a mynychu gwahanol gynadleddau cynrychiolaeth myfyrwyr
- Os ydych chi'n siarad Cymraeg, y cyfle i gael eich ethol y Swyddog yr Iaith Gymraeg, a chyfle i fynychu cynadleddau'r Iaith Gymraeg ac eistedd ar bwyllgor Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Brifysgol
- Y gallu i fynychu cyfarfodydd cynrychiolaeth, a chyflwyno polisi ar bob lefel
- Prosesau etholiadol tryloyw wedi'i rheoli'n dda, er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cyfranogi'n llawn yn y broses o ddewis eich cynrychiolwyr
- Hyfforddiant ar gyfer eich holl gynrychiolwyr myfyrwyr er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich cynrychioli'n effeithiol ac yn broffesiynol
- Mynediad at y swyddogaeth eiriolaeth gan eich Swyddogion Llawn Amser, ar-lein ac yn bersonol.

## Rydym yn disgwyl i chi wneud y canlynol:

- Cefnogi eich cynrychiolwyr myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr a'u gwneud nhw'n ymwybodol o'ch barn, er mwyn eu galluogi nhw i gynrychioli eich barn yn gywir a phriodol
- Cymryd rhan yn y prosesau etholiadol ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr
- Cwblhau gwerthusiadau ar gyfer cyrsiau a modiwlau yn ôl y galw
- Ymgysylltu â phob mecanwaith perthnasol ar gyfer adborth a ddefnyddir gan y Brifysgol i gasglu barn myfyrwyr ar eich cwrs a'r gymuned academiaidd yn ehangach, megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) a'r Arolwg o Brofiad Ôl-raddedigion Ymchwil (ABÔY)
- Defnyddio pob ffurf o gyfathrebu llafar, ysgrifenedig a digidol (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a safleoedd rhwydweithio) yn gyfrifol, gan bob amser barchu hawl pobl eraill i breifatrwydd



# Eich Lles

## Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Prifysgol:

- Amgylchedd saf a cynhwysol i ddysgu a datblygu, gan gyflawni dyletswydd gofal a gyflawnwyd i amddiffyn eich iechyd, diogelwch a lles.
- Llwybrau hawdd eu gyrraedd i godi pryderon ynghylch iechyd diogelwch a lles.
- Mynediad llawn i wasanaethau myfyrwyr integredig y rheng flaen drwy ein Parthau Cyngori
- Gwasanaeth brysbennu Lles fel porth i gymorth iechyd meddyliol arbenigol
- Mynediad i adnoddau ar-lein perthnasol ac adnoddau "hunangymorth" drwy borth y myfyrwyr
- Rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau Lles i helpu yn eich twf a llwyddiant personol hysbysir gan strategaeth Lles 'Prifysgol eufan'
- Mynediad at wasanaeth cyfunol (ar y campws neu drwy lwyfannau digidol fel Timau) sy'n darparu gwasanaethau cymorth arbenigol
- Ymgyrchoedd perthnasol a defnyddiol i godi ymwybyddiaeth o gymorth, wasanaethau a chyfluoedd i wneud y gorau o'ch lles
- Hyfforddwr academaidd personol a all ddarparu cyngor academaidd 1-2-1 i chi, a'ch cyfeirio at wasanaethau eraill yn ôl yr angen.

## Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Undeb Myfyrwyr:

- Ymgyrchoedd perthnasol a defnyddiol sy'n eich hysbysu o'ch hawliau fel myfyrwyr
- Cynrychiolaeth ar byllgorau perthnasol y Brifysgol er mwyn sicrhau bod eich llais i'w glywed
- Partneriaeth gref â'r Adran Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod eich anghenion academaidd yn cael eu diwallu
- Cymorth a chynghor gan eich Swyddogion Sabothol a Swyddogion Cynghor y Myfyrwyr
- Cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol
- Paned braf o de, cefnogaeth cymheiriaid, ac ysgwydd i wylo arni os oes angen



## Rydym yn disgwyl i chi wneud y canlynol:

- Bod yn gyfrifol am eich iechyd, diogelwch a'ch llesiant eich hun, myfyrwyr eraill ac eraill o fewn cymuned y Brifysgol
- Hysbysu'r Brifysgol yn glŷn ag unrhyw amgylchiadau, anghenion neu gyfyngiadau a all effeithio ar eich cyfranogiad yn y Brifysgol, boed yn bodoli eisoes neu'n newydd, er mwyn i ni allu cynnig cefnogaeth i chi.
- Byddwch yn ystyrlon o eraill, gan gydnabod a pharchu sut y gall eich ymddygiad effeithio ar fyfyrwyr eraill a'r gymuned yn ehangach
- Datblygu eich ymwybyddiaeth eich hun o wasanaethau cymorth a sut i'w cyrchu nhw



## Eich Pryderon

### Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Prifysgol:

- Y gallu i wneud cwyn neu gyflwyno apêl drwy brosesau ffurfiol y Brifysgol heb ofnau ynglŷn â gwrthgyhuddiad neu ragfarn annheg
- Mynediad i weithdrefnau apêl a chwynion eglur a chymorth drwy'r prosesau hyn
- Cael eich trin yn deg a chwrtais yn ystod unrhyw brosesau ymchwilio
- Mynediad i brosesau tryloyw ar gyfer amgylchiadau esgusodol
- Mynediad i wybodaeth berthnasol ynglŷn â gweithdrefnau'r Brifysgol ar wefan y Brifysgol ac Unilife

### Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Undeb Myfyrwyr:

- Cyngor, cefnogaeth a chynrychiolaeth gyfrinachol a di-duedd drwy unrhyw weithdrefnau apêl, cwynion neu dor-amod academiaidd
- Cynrychiolaeth ar bob panel cwynion ac apeliadau, gan sicrhau bod pob proses a phenderfyniad yn deg a chyfiawn
- Cynrychiolaeth ar weithgorau'r Brifysgol wrth adolygu polisïau a gweithdrefnau, er mwyn sicrhau bod llais y myfyrwyr wrth galon y broses bob amser

### Rydym yn disgwyl i chi wneud y canlynol:

- Dilyn y gweithdrefnau'n glòs, a lle bo hynny'n bosib, darparu ffeithiau a thystiolaeth berthnasol allweddol o fewn terfyn amser penodol
- Ymddwyn yn barchus a chwrtais os ydych chi'n ymwneud ag unrhyw weithdrefn y Brifysgol
- Peidio â gwneud unrhyw gwynion neu gyhuddiadau maleisus na blinderus



## Eich Bywyd y Tu Allan i'r Dosbarth

### Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Prifysgol:

- Mynediad i wasanaethau gyrfaoedd a chyflogadwyedd, gan gynnwys cyngor ar leoliadau gwaith
- Mynediad i gyfleoedd ar gyfer gwaith rhan-amser wedi'u hysbysebu drwy'r gwasanaeth gyrfaoedd ac UniLife
- Lle mae'n berthnasol i'ch cwrs, mynediad i achrediad proffesiynol sy'n adeiladu ymwybyddiaeth o ansawdd eich gradd
- Cyfleusterau a gwasanaethau llyfrgell, TGCh ac eraill fydd yn gwella'ch profiad fel myfyrwr

### Gallwch ddisgwyl y canlynol gan eich Undeb Myfyrwr:

- Mynediad i glybiau, cymdeithasau a chyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a chodi arian
- Unwaith y bydd y cyfyngiadau wedi'u chodi, gallwch ddisgwyl ystod enfawr o chwaraeon cystadleuol, gyda chyfranogiad llawn yng nghyngreiriau a chystadlaethau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) pan fydd yn ailgychwyn
- Rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer pob myfyriwr Mynediad i gyfleoedd gweithio rhan-amser, hysbysebu trwy gyfrifau wefanau cymdeithasol yr Undeb Myfyrwr.

### Rydym yn disgwyl i chi wneud y canlynol:

- Cynnal gwerthoedd craidd PDC ac UMPDC, gan ddangos yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn aelod o'r teulu PDC
  - Bod yn llysgennad y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwr, gan ymddwyn yn gadarnhaol ac yn briodol bob amser mewn gweithredoedd, geiriau a neges ar gyfryngau cymdeithasol, cyhoeddus a phreifat
  - Trin eraill ag urddas a pharch, cydnabod ein gwahaniaethau, a deall y gwahaniaethau hyn yn creu targedau ar gyfer gwawd, sarhad, aflonyddu neu gamdriniaeth
  - Ymddwyn yn gyfrifol wrth gynrychioli'r Brifysgol a'r Undeb y Myfyrwr mewn digwyddiadau chwaraeon, diwylliannol neu ddigwyddiadau eraill
  - Parchu a chadw at Reolau Sefydlog ac Erthyglau Undeb y Myfyrwr a gyhoeddwyd
    - Parchu eraill sy'n byw ac yn gweithio yn eich cymuned
    - Cymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd, ac annog eraill i wneud yr un peth
- Adrodd achosion o ymddygiadau amhrifodol yn y modd cywir, yn unol â rheoliadau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwr





## Gwybodaeth Defnyddiol

Y Broses Ymgysylltu	<a href="https://bit.ly/3SMpwru">bit.ly/3SMpwru</a>
Polisi Diogeli PDC	<a href="https://bit.ly/3CoOCaA">bit.ly/3CoOCaA</a>
Wefan y Brifysgol	<a href="https://southwales.ac.uk">southwales.ac.uk</a>
Wefan Undeb y Myfyrwyr	<a href="https://uswsu.com">uswsu.com</a>
Unilife	<a href="https://unilife.southwales.ac.uk">unilife.southwales.ac.uk</a>
Ardal Gyngkori	<a href="https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/">https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/</a>
Cyfleoedd i astudio trwy'r Gymraeg	<a href="https://southwales.ac.uk/cymraeg">southwales.ac.uk/cymraeg</a>
Uned Gymraeg y Brifysgol	<a href="mailto:cymraeg@decymru.ac.uk">cymraeg@decymru.ac.uk</a>
Cynllun Ffioedd a Mynediad Prifysgol De Cymru	I gael gwybodaeth am ddarpariaeth Gymraeg, cyfleoedd dwyieithog (gan gynnwys ysgoloriaethau) a chydymffurfiaeth, <a href="https://www.southwales.ac.uk/documents/1338/University%20of%20South%20Wales%20Fee%20and%20Access%20Plan%202020-21.pdf">https://www.southwales.ac.uk/documents/1338/University of South Wales Fee and Access Plan 2020-21.pdf</a>
Astudio Dramor	<a href="https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/a2z/studying-abroad/how-apply-erasmus/">https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/a2z/studying-abroad/how-apply-erasmus/</a>
Cost astudio	<a href="https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid/">https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid/</a>
Polisi Derbyniadau	<a href="http://www.southwales.ac.uk/study/apply/admissions-statement/">http://www.southwales.ac.uk/study/apply/admissions-statement/</a>
Cwynion Myfyrwyr	<a href="https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/student-complaints/">https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/student-complaints/</a>
Llywydd UM	<a href="mailto:supres@southwales.ac.uk">supres@southwales.ac.uk</a>
Is-lywyddion UM	<a href="mailto:su.education@southwales.ac.uk">su.education@southwales.ac.uk</a> <a href="mailto:su.welfare@southwales.ac.uk">su.welfare@southwales.ac.uk</a> <a href="mailto:su.activities@southwales.ac.uk">su.activities@southwales.ac.uk</a> <a href="mailto:studunion@southwales.ac.uk">studunion@southwales.ac.uk</a>
E-bost Cyffredinol UM	<a href="mailto:ucm@southwales.ac.uk">ucm@southwales.ac.uk</a>
UCM	<a href="https://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk">https://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk</a>
Cyllid Myfyrwyr Cymru	<a href="https://studentfinancewales.co.uk">studentfinancewales.co.uk</a>
Cyllid Myfyrwyr Lloegr	<a href="https://gov.uk/student-finance-register-login">gov.uk/student-finance-register-login</a>
Asiantaeth Cyllid Myfyrwyr yr Alban	<a href="https://saas.gov.uk">saas.gov.uk</a>
Swyddfa'r Dyfarnwr	<a href="https://oiahe.org.uk">oiahe.org.uk</a>
Annibynnol	<a href="https://colegcymraeg.ac.uk/cy">colegcymraeg.ac.uk/cy</a>
Coleg Cymraeg Cenedlaethol	

Mae Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng Gymraeg. Mae gan y Coleg gangen ym mhob prifysgol gyda'r nod o gefnogi gwaith y Coleg a gweithredu fel pwynt cyswllt lleol i fyfyrwyr. Mae'r Coleg hefyd yn ariannu darlithwyr trwy ei Gynllun Staffio Academaidd sy'n datblygu modiwlau a chyfleoedd i astudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.



**Undeb Myfyrwyr**  
Prifysgol De Cymru  
University of South Wales  
**Students' Union**



